

# DECHRAU WRTH FY NHRAED

## Cysylltiad rhwng yr gymuned a'r blant.

Yn fy ysgol leol mae yna sawl ffordd mae'r ysgol yn gwneud ffyrdd o neud perthnasau rhwng yr ysgol ar gymdeithas. Enghraifft o hon yw bod yr ysgol yn cynnal cyngherddau yn y capel lleol. O ganlyniad i hyn mae cysyllted agos rhyngddyn nhw.

Dwedodd estyn " Mae'r ysgol yn weithgar yn y gymuned leol yn diddori henoed y pentref ac yn cynnal gwasanaethau mewn capeli ac eglwysi lleol, ac mae disgyblion yn elwa o gefnogaeth nifer o aelodau'r gymuned sy'n dod i hybu eu medrau darllen."

## Cysylltiad rhwng yr gymuned a'r ysgol.

Mae hefyd perthynas agos gyda'r ysgol ar gymuned fel yr heddlu ac yr orsaf dân. Oherwydd hyn mae'r ysgol yn cael trefniadau a gweithgareddau yn aml fel sut i fod yn ddiogel r we e.e.


Syniad da hefyd mae'r ysgol yn neud i greu cysylltiad yw gadael gwirfoddolwyr o'r gymuned dod mewn a helpu mewn ffyrdd gwahanol fel bod yn gynorthwywyr ar dripiâu.

*Estyn, Ysgol Saron. (2017)*



## Ethingrwydd yn yr ysgol:

Mae yna ethnigrwydd gwahanol yn yr ysgol. Ar ôl fod yn yr ysgolion fel darpar athro fe welais i bod yr ysgol a'r ddisgyblion i gyd yn drin pawb yn gyfartal ac yn gwneud ei gorau i gwneud bod pawb yn deg ac yn cael ei dysgu fel unigolion ddim yn gwahaniaethu.



Bronfenbrenner U, Ceci SJ (october 1994). Psychology Wiki.

## Cysylltiad yr ysgol a'r iaith cymraeg.

Mae fy ysgol leoliad yn ysgol gyfrwng Cymraeg ac yn gwneud llawer i hybu'r iaith. Mae'r athrawon i gyd yn siarad Cymraeg ac yn siarad Cymraeg gyda'r plant i gyd hyd yn oed os yw safon ei Chymraeg nhw'n isel. Yn yr adroddiad ESTYN 2017 wedon nhw oedd safon yr ysgol yn Rhagorol yn fy ysgol leol mewn sawl gwahanol fathau fel "Mae medrau llafar bron pob disgybl yn datblygu'n gryf ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, o oed cynnar, maent yn sgwrsio'n naturiol yn Gymraeg gan ddefnyddio geirfa gyffredinol a phynciol sy'n gynyddol eang." Ffordd hwyl a gweithgar o wneud a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yw cymryd rhan yn weithgareddau'r urdd fel neud clybiau rygbi a phêl rwyd ac yn cystadlu yn erbyn ysgolion eraill. Yn ogystal â hyn mae'r ysgol yn cystadlu yn yr eisteddfod genedlaethol pob blwyddyn yn neud pethau gwahanol. *Estyn, (2017).*

## Cysylltiad rhwng yr ysgol a'r rhieni.

Mae llawer o gyfleoedd i'r rhieni cael perthnasau agos nid ddim ond gyda'r ysgol ond yn fwy perthnasol gyda'r athrawon a'r disgyblion. Mae'r ysgol yn cynnal sesiynau i'r rhieni ddod mewn ac arsylwi gwersi ei blant a gweld sut maen nhw'n neud yn yr ysgol yn lle ddim ond cael noson rhieni un waith y tymor.

Ffordd o drio cadw'r cysylltiad yw cofnod cyswllt. Mae cofnod darllen a gwaith cartref yn cael ei chadw yn y llyfr ac mae'n ffordd dda i'r rhieni cadw ymwybyddiaeth o gynnydd y plant. Mae'r ffordd hon o gysylltu yn ffordd dda yn enwedig i'r rhieni sydd yn gweithio llawer neu' sydd yn neud oriau anghymdeithasol.



"Families are the first educators of their children and they continue to influence their children's learning and development during the school years and long afterwards. This is why it is important for families and schools to work together in partnership."

## Fy ardal leol:

- Mae yna 252 o ddisgyblion yn yr ysgol.
- Mae 9.2% o'r blant yn cael prydau ysgol am ddim sydd yn canran isel i gymharu a ysgolion arall ynghymru.
- Mae 31% o'r ddisgyblion wedi ei nodi gyda anghenion ychwanegol sydd yn llawer fwy na beth yw'r canran cenedlaethol.

## Gorau Dysgu – Cyd-ddysgu



Gwledigaeth yr ysgol yw "Gorau Dysgu – Cyd-ddysgu". Mae pennaeth yr ysgol yn trio gwneud yr awgrym o bwysigrwydd creu cysylltiadau rhwng pawb; yn cynnwys staff, disgyblion, llywodraethwyr, rhieni ar gymuned.

- Derbyniwyd yr ysgol £3112 am bob un ddisgybl, yr ysgol hyn sydd yr 95/100 ysgol gynradd y nghymru mewn termau o cyllid eb.
- Dydy Saron ddim yn cael ei enwi fel ardal sydd o fewn yr statws "tlawd"

## Crefydd:

Yn yr ysgol mae crefyddau gwahanol ond does dim llawer o cymorth neu gwybodaeth yn cael ei addysgu i'r blant.

## Theori bronfen brenner

Damcaniaeth systemau ecolegol Bronfenbrenner. Dywedodd Bronfen, i allu deall datblygiad dynol yn iawn bydd rhaid cymryd ystyriaeth o'r twf o ganlyniad i'r systemau ecolegol. Mae'r system hon wedi ei neud o 5 rhannau gwahanol o'r systemau cefnogi ac arweinyddiaeth datblygiad dynol sef:

- Yr Unigolyn
- Yr Microsystem
- Yr Mesosystem
- Yr Exosystem
- Yr Macrosystem.

Mae yna gysylltiad â chanlyniad wrth bob cam yn y theori hon. Gallaf weld bod yr unigolyn sef gyda'r rheolaeth o'r rhan seicolegol a biolegol. Mae hyn wedyn yn cael ei effeithio gan amgylchedd corfforol a chymdeithasol uniongyrchol y plentyn. O fewn y rhwydwaith yna mae'r systemau sydd o fewn nhw hefyd yn cael effaith. Dylanwad yr exosystem wedyn yw'r argaeledd ar strwythur tu fewn y gymuned. Ac yn olaf yr macrosystem ble mae credoau ac agweddau'r gymuned yn effeithio'r plentyn o ochr seicolegol. Yn wirionedd gall gweld bod y system hon yn hynod o bwysig fel rhan deall plentyn ac fe gewch chi weld hyn mewn unrhyw sefyllfa a fe nai i gysylltu hyn o brofiad.

# Cyfeirnod

Australian Government, 2018. *Department of Education*. Ar gael yn: <https://www.education.gov.au/it-s-part-my-life-engaging-university-and-community-enhance-science-and-mathematics-education> (cyrchwyd: 10/2/20)

Estyn, 2017, *Ysgol Gynradd Saron*, ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/chwilio?search=ysgol+gynradd+saron> (cyrchwyd: 10/2/2020)

Fy ysgol leoliad, 2019, *Ysgol Gynradd Saron*, ar gael yn: <https://www.ysgolsaron.co.uk/> (cyrchwyd: 10/2/2020)

Fy Ysgol Leol, 2019, *Ysgol Gynradd Saron*, ar gael yn: <http://mylocalschool.gov.wales/School/6692042?lang=cy> (cyrchwyd: 10/2/2020)

Psychology Wiki, 2009, *Bronfenbrenner ecological system*, ar gael yn: [https://psychology.wikia.org/wiki/Bioecological\\_model](https://psychology.wikia.org/wiki/Bioecological_model) (cyrchwyd: 10/2/2020)